Bryn Ffynnon,
Llangwm,
CORWEN,
LL21 0RL

Ionawr 24ain 2017

Parthed Ysgol Gydol Oes newydd Y Bala

Annwyl Arwyn Thomas,

Pan basiodd Cyngor Sir Gwynedd i roi statws Eglwysig i'r Ysgol Gydol Oes newydd y bwriedir ei hagor yn Y Bala, roedd hyn yn siom aruthrol i lywodraethwyr Ysgol y Berwyn ac fel canlyniad ni fu iddynt ddatgan eu cefnogaeth i'r cynllun. Mae ymyrraeth ddiweddar o du'r Eglwys yn tanlinellu'r ofnau gwreiddiol na fydd ysgol gyda statws Eglwysig yn ateb gofynion addysgol Penllyn, Edeirnion a rhannau o Uwchaled. Er mwyn i'r ysgol newydd fod yn ganolfan gymunedol ac addysgol i bawb, rhaid iddi wrth statws gymunedol.

Mae llywodraethwyr Ysgol y Berwyn felly'n gofyn i Gyngor Sir Gwynedd gynnal ymgynghoriad newydd, fel y gellir ail-edrych ar statws yr ysgol newydd. Ofnwn y gallai'r ansicrwydd presennol fod yn ddim ond rhagflas o anghydfod gwaeth a all ddigwydd yn y dyfodol, gan danseilio'r ysgol newydd. Mae'r bartneriaeth oedd i fod rhwng yr Eglwys a'r gymuned wedi'i chwalu - ac nid oes gennym bellach ymddiriedaeth yn yr Eglwys. Oni chynhelir ymgynghoriad newydd, bydd yn anodd iawn i ni, sydd wedi arwyddo'r llythyr hwn, gefnogi corff cysgodol yr ysgol newydd, gan amddifadu'r corff hwnnw o'n profiad a'n hymroddiad i addysg yr ardal.

Yn gywir,

Gwion Lynch
Cadeirydd llywodraethwyr Ysgol y Berwyn

Llywodraethwyr:

GWION LYNCH (CADEIRYDD)

Gareth Llewelyn (IS-GADEIRYDD)

A. M. Llewelyn

BRYN ROBERTS

JANO OWEN

GERALLT TUDOR

ELEN AP GWILYM

MEREDYDD JONES.

LLINOR ANGHARAD PRITCHARD

DYLAN DAVIES

Dilwyn Morgan

SUSAN WYN DAVIES.

GWYN LLOYD DAVIES